Cofnodion cyfarfod hybrid y **PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd nos Fercher, 15 Mawrth 2023, yn dilyn cyfarfod y Cyngor a'r ragflaenodd.

**PRESENNOL**

Cadeirydd – Y Cynghorydd Ms. J. McAlpine

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs. M. Blakeley-Walker, Mrs. J. Evans, S. Feeney, J. Hughes, K.R. Jones, Mrs. D.L. King, B. Mellor, Ms. V. Roberts, A. Rutherford, D. Simmons ac A. Walker.

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd Mrs. E. Chard (Arsylwr)
Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

**46. DECHRAU'R CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU**

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr

**47. CEISIADAU CYNLLUNIO Y PENDERFYNWYD ARNYNT GAN Y CADEIRYDD**

Yn dilyn canslo'r cyfarfod a oedd i'w gynnal ar 1 Mawrth 2023 cyflwynodd y Cadeirydd restr rhif 15 yn nodi'r ceisiadau cynllunio yr oedd hi wedi penderfynu arnynt ar ran y Pwyllgor.

| **RHESTR CEISIADAU CYNLLUNIO 15** | |
|---|---|
| 47.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 23 Rhodfa Shaun, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Derwen<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Chamberlain Jones<br>Mrs. E.M. Chard<br>Miss S. Roberts<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2022/0096<br><br>**DISGRIFIAD**: Adeiladu estyniadau a gwneud addasiadau i'r annedd, ffurfio mynedfa newydd i gerbydau a man parcio a gwaith cysylltiedig (cais wedi'i ailgyflwyno)<br><br>**YMGEISYDD:** Mrs. Vicky Birch-Jones, 7 Rhodfa Grange, Y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad* |
| 47.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 119 Ffordd Trellewelyn, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. M. Blakeley-Walker<br>Mrs. W. Mullen-James<br>Ms. V. Roberts |

| | |
|---|---|
| | **RHIF Y CAIS:** 45/2023/0002<br><br>**DISGRIFIAD**: Gosod ffenestri dormer a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Wayne Jones o'r cyfeiriad uchod<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |

**48. CEISIADAU CYNLLUNIO (RHESTR 16)**

Ystyriodd yr aelodau y ceisiadau cynllunio a dderbyniwyd fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir wrth y cais.*

**Nodyn 1:** Cynghorir yr Awdurdod Cynllunio Lleol fod Cyngor Tref y Rhyl yn dymuno datgan, ble bo'n briodol, y dylai fod yn ofynnol i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau fel swyddfeydd, busnesau, siopau ac archfarchnadoedd osod arwyddion dwyieithog o amlygrwydd cydradd, i adlewyrchu natur ieithyddol ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Mae Cyngor Tref y Rhyl a Chyngor Sir Ddinbych wedi cyhoeddi argyfwng hinsawdd yn ffurfiol yn ddiweddar ac felly byddai'n dymuno bod datblygwyr a'r Awdurdod Cynllunio yn cymryd camau i sicrhau bod yr holl geisiadau maint mawr yn y dyfodol yn uchafu'r defnydd o dechnolegau sy'n bodoli eisoes i leihau'r effaith negyddol ar yr hinsawdd.

| **RHESTR CEISIADAU CYNLLUNIO 16** | |
|---|---|
| 48.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir oddi ar Rodfa Westbourne, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Foryd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: Mrs. J. Butterfield<br>A.R. James<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2022/1008<br><br>**DISGRIFIAD:** Adeiladu pump annedd, yn cynnwys llunio mynedfa newydd i gerbydau, safle storio gwastraff, mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. Nigel Gizzi, J&T Gizzi Limited, The Gatehouse, Fferm Bodoryn Fawr, San Sior, Abergele.<br><br>***PENDERFYNIAD****: Dim gwrthwynebiad* |
| 48,2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Gwersyll Gwyliau Lyons Robin Hood, Ffordd yr Arfordir, Y Rhyl<br><br>**WARD:** Brynhedydd<br><br>**CYNGHORWYR Y WARD**: B. Mellor<br>S. Feeney<br><br>**RHIF Y CAIS:** 45/2023/0123 |

| | |
|---|---|
| | **DISGRIFIAD**: Gosod sleid ddŵr yn yr adeilad pwll nofio sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig<br><br>**YMGEISYDD:** Mr. J. Mound, Lyons Holiday Park Ltd., Ffordd yr Arfordir, Y Rhyl<br><br>***PENDERFYNIAD***: *Dim gwrthwynebiad* |

**49. HYSBYSIAD AM APÊL CYNLLUNIO – TŶ KYNSAL, FFORDD Y DYFFRYN, Y RHYL**

Cynghorodd y Cadeirydd fod y Cyngor wedi'i hysbysu y cyflwynwyd apêl yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wrthod caniatâd cynllunio i'r safle uchod i newid defnydd y tir a'r adeiladau atodol i ffurfio safle preswyl i 6 carafan Teithwyr, gyda Thŷ Kynsal yn cael ei gadw fel llety i'r perchnogion / rheolwyr; yn cynnwys ffurfio llwybrau mewnol, mannau parcio, tirlunio a gwaith cysylltiedig. Cynhelir yr apêl ar ffurf gwrandawiad.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r adroddiad.*

**50. DIWEDDU'R CYFARFOD**

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod, cyhoeddodd y Cadeirydd ddiwedd y cyfarfod.

Llofnod: ……………..…………

Dyddiad: ………………………...